Tŷ'r Cwmnïau
er gwybodaeth

CYLCH GWAITH
BWRDD LLYWIO TŶ'R CWMNÏAU

Asiantaeth Weithredol o dan yr Adran Busnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio (BERR)

Rôl y Bwrdd Llywio yw cynghori'r Ysgrifennydd Gwladol, trwy gyfrwng y Cyfarwyddwr Cyffredinol, ynghylch y gwaith o lywodraethu'r Asiantaeth, yn arbennig ei chynllun corfforaethol, ei thargedau a'i pherfformiad. Yn ogystal, mae'n darparu arweiniad o safbwynt masnachol neu fusnes i'r Prif Weithredwr a'i dîm uwch ynghylch gweithrediad a datblygiad yr Asiantaeth.

Amcanion a Dyletswyddau

- Rhoi cyngor ynghylch cyfeiriad strategol a darparu'r cyd-destun ar gyfer y Cynllun Datblygu a'r targedau cyffredinol, o fewn fframwaith amcanion cyffredinol BERR a gwasanaeth ac amcanion ehangach y Llywodraeth o ran busnes.
- Cynnig her strategol ynghylch y cynlluniau corfforaethol a Busnes, a chymeradwyo'r adroddiad a'r cyfrifon blynyddol i'w cyflwyno gan y Swyddog Cyfrifyddu.
- Asesu adroddiadau perfformiad rheolaidd
- Rhoi cyngor ynghylch perfformiad, a'i fonitro, gan gynnwys gosod targedau, yn enwedig wrth sicrhau eu bod yn cyd-fynd â nodau adrannol a nodau ehangach y llywodraeth, ynghyd â pherfformiad yn eu herbyn, yn ogystal â chynnig asesiad annibynnol o'r targedau a'r prosesau sylfaenol
- Rhoi cyngor ynghylch cwmpas a chanlyniadau adolygiadau Asiantaeth
- Rhoi cyngor ynghylch datblygiadau busnes mawr sy'n awgrymu newid sylweddol o ran rôl neu weithgareddau'r asiantaeth ac ynghylch unrhyw risg y mae'n ei hwynebu, a'r gwaith i reoli'r risg hon.

Aelodaeth

Cadeirydd	(annibynnol)
Aelodau	Tri aelod annibynnol neu fwy
	Cyfarwyddwr Cyffredinol Marchnadoedd Teg, BERR (neu Ddirprwy)
	Cynrychiolydd uwch o Gyfarwyddiaeth Cyllid BERR
	Cynrychiolydd uwch o Grŵp Cyfraith Cwmnïau BERR
	Prif Weithredwr Tŷ'r Cwmnïau
	Cyfarwyddwr Cyflwyno i Gwsmeriaid
	Cyfarwyddwr Atebion Busnes
	Cyfarwyddwr Cyllid
	Cyfarwyddwr Strategaeth Gorfforaethol
	Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol

Cynghorydd Cyfreithiol Uwch

Is-Bwyllgor Ymgynghori Annibynnol

Mae aelodau annibynnol y Bwrdd Llywio, ynghyd â'r Cadeirydd, y Cyfarwyddwr Cyffredinol dros Farchnadoedd Teg a, phan fo hynny'n briodol, y Prif Weithredwr, yn creu'r Is-Bwyllgor Ymgynghori Annibynnol. Efallai y bydd angen i'r pwyllgor hwn gyfarfod i drafod unrhyw faterion pan na fydd yn briodol i aelodau gweithredol y Bwrdd Llywio fod yn bresennol.

Cworwm

Bydd y Bwrdd Llywio wedi'i gyfansoddi'n gywir pan fydd tri o'r aelodau neu fwy yn bresennol. O'r rhain, rhaid cael aelod annibynnol, cynrychiolydd BERR a'r Prif Weithredwr neu, yn ei absenoldeb, Cyfarwyddwr Gweithredol Tŷ'r Cwmnïau a enwebwyd gan y Prif Weithredwr i'r diben hwnnw.

Amlder a lleoliad cyfarfodydd

Mae'r Bwrdd Llywio yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn. Fel arfer, cynhelir y cyfarfodydd eu hunain yn swyddfa'r pencadlys yng Nghaerdydd neu yng Nghanolfan Gynadledda BERR yn Llundain, a chynhelir cyfarfodydd achlysurol yng Nghaeredin (a Belfast o fis Hydref 2008). Yn ogystal, cynhelir 'diwrnod i ffwrdd' ar gyfer gweithgarwch taflu syniadau unwaith y flwyddyn. Estynnir gwahoddiad i'r aelodau sy'n ymuno â'r Bwrdd Llywio i dreulio diwrnod sefydlu yng Nghaerdydd. Yn ogystal, efallai y disgwylir i Aelodau'r Bwrdd Llywio gymryd rhan mewn byrddau cyfweld uwch a seminarau ar y lefel uwch o bryd i'w gilydd. Os byddwch yn ymgymryd â'r cyfrifoldeb ychwanegol o fod yn aelod o'r Pwyllgor Archwilio, bydd hyn yn golygu mynychu cyfarfodydd bedair gwaith y flwyddyn, a fydd yn para oddeutu dwy awr fel arfer. Yn ogystal, cynhelir cyfarfod ychwanegol i gymeradwyo'r cyfrifon. Gellir gwahodd Aelodau'r Bwrdd Llywio i gyfrannu eu harbenigedd i fyrddau strategol eraill yn Nhŷ'r Cwmnïau hefyd.

Tymor Gwasanaeth

Tair blynedd, y gellir ei ymestyn i bum mlynedd.

Tâl

Y tâl blynyddol i Gadeirydd annibynnol yw £8,000 ac mae'n £4,800 i aelodau annibynnol o'r bwrdd. Dosberthir y swydd fel "Deiliad Swydd" at ddibenion treth ac Yswiriant Gwladol ac o'r herwydd, dan Adran 19(1) o Ddeddf Trethi Incwm a Chorfforaeth 1988, telir treth ar y ffi dan Atodlen E ac mae'n denu atebolrwydd Yswiriant Gwladol Dosbarth 1. Bydd Tŷ'r Cwmnïau yn talu costau teithio rhesymol ar ôl iddo gael derbynebau.

Cofnodion

Bydd cofnodion yn cael eu paratoi ar gyfer pob cyfarfod ac yn cael eu dosbarthu i'r aelodau cyn pen deg diwrnod gwaith i bob cyfarfod.

Tŷ'r Cwmnïau
Medi 2007